

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton, C. Stallard a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

828 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

829 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd E. Penn.

830 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd C. Iannucci yn bresennol yn y cyfarfod.

831 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

832 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR 2023 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r aelodau am y cynnydd mewn perthynas â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Ionawr 2023.

Roedd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 wedi bod yn heriol i'r cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus yr argyfwng costau byw, pwysau chwyddiant, ac effaith barhaus COVID 19. Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â setliad y dyfarniad cyflog ychwanegol, chwyddiant cyffredinol, yn enwedig mewn meysydd fel cludiant i'r ysgol a chostau byw, a phwysau staffio. Roedd pwysau chwyddiant a galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau ac y byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd dyraniad cyllideb ychwanegol o £1.5 miliwn wedi'i wneud i ysgolion yn 2022/23 fel cyfraniad at gostau ychwanegol dyfarniad cyflog 2022/23. Roedd hwnnw wedi'i ariannu o incwm ychwanegol y dreth gyngor y rhagamcanwyd ei dderbyn yn 2022/23 ac felly roedd y gyllideb sylfaenol wedi'i chynyddu i adlewyrchu'r incwm a ragamcanwyd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro ragamcanol fesul cyfarwyddiaeth:

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb ddiwygiedig 2022/23 £000au	Alldro rhagamcanol 2022/23 £000au	Trosglwydd o i/(o) gronfeydd wrth gefn £000au	Amrywiant ffafriol / andwyol £000au
Dysgu a Sgiliau	122,578	129,623	(7,045)	0
Gwasanaethau Cymdeithasol	80,742	80,079	663	0
Amgylchedd a Thai	48,190	50,535	(1,445)	900
Adnoddau Corfforaethol	2,208	5,935	(3,267)	460
Lle	4,088	5,278	(1,116)	74
Polisi	33,764	32,330	0	(1,434)
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	(996)	(996)	0	0
Cyfanswm	290,574	302,784	(12,210)	0

Ar hyn o bryd, roedd sefyllfa gyffredinol gytbwys ar ôl rhagamcan tynnu i lawr £12.210 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd pwysau tâl ychwanegol o fewn rhai cyfarwyddiaethau yn cael eu bodloni o danwariant yn y gyllideb polisi a rhywfaint o dynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn gwasanaethau. Fodd bynnag, byddai angen lliniaru'r pwysau o ran cludiant i'r ysgol wrth i ddiwedd y flwyddyn agosáu.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500,000 wedi ei osod ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn parhau i weithio tuag at gyflawni eu targedau. Roedd rhai materion yn parhau mewn perthynas â thargedau arbedion nas cyflawnwyd o flynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth yn lliniaru drwy swyddi gwag yn 2022/23 ac roedd y rhain wedi cael sylw ar gyfer cyllideb 2023/24. Roedd amrywiannau andwyol yn cael eu rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau eleni a byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i ddatrys y materion hyn yn y tymor byr.

Holodd y Cynghorydd C. Champion ynghylch lefel y llog ar ad-dalu benthyciadau a lefel y llog yr oedd y cyngor yn ei dderbyn o'i fuddsoddiadau, gan ddweud y gallai'r cyngor fod yn talu ei fenthyciadau o'r llog a dderbyniodd. Dywedodd y cyfrifydd fod Tabl 8 yn yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion am gronfeydd wrth gefn y cyngor a bod Tabl 9 yn rhoi mwy o fanylion am ei fenthycia. Roedd Tabl 10 yn amlinellu lefel buddsoddiadau'r cyngor. O ran benthycia, roedd yr adroddiad yn nodi bod benthyciadau newydd yn cael eu benthycia ar gyfradd gyfartalog o 3.07% ac ad-dalwyd dyled a oedd yn aeddfedu ar gyfradd gyfartalog o 4.91%. Dywedodd y cyfrifydd y byddai rhagor o wybodaeth am daliadau cyfradd llog a llog a dderbyniwyd yn cael ei hanfon drwy e-bost.

Holodd y Cynghorydd M. Hooper a oedd unrhyw beth annisgwyl a allai effeithio ar sefyllfa ragamcanol y gyllideb derfynol. Mewn ymateb, dywedodd y cyfrifydd eu bod yn dal i gyfrifo'r sefyllfa ar gyfer y mis olaf, ond y disgwyl oedd y byddai sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 31 Mawrth yn agos at yr hyn a ragwelwyd. Gallai fod eitemau o wariant annisgwyl, ond roedd y maes gwasanaeth yn dal arian wrth gefn i geisio lliniaru hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd A. Ernest at y £50,000 o incwm a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil, a holodd beth oedd cyfanswm cost y gwasanaeth hwnnw. Mewn ymateb, dywedodd y cyfrifydd fod y £50,000 yn cynrychioli gwarged. Roedd cyfanswm y refeniw rhagamcanol oddeutu £600,000, yn erbyn cyfanswm gwariant rhagamcanol o £550,000.

Gwnaeth y Cynghorydd I. Perry sylw ar y gyllideb a ddyrannwyd i atgyweirio tyllau ffyrdd. Dywedodd nad oedd wyneb y ffordd mewn rhai rhannau o'i ward, dim ond clytwaith o dyllau yn y ffordd a oedd yn creu mwy o dyllau yn y ffordd. Roedd hon felly yn broblem a oedd yn codi dro ar ôl tro, ac felly roedd o'r farn ei bod yn well ac yn fwy effeithlon yn ariannol i'r cyngor gymryd camau ataliol ac ailwynebu ffyrdd yn hytrach na chlytio tyllau yn y ffyrdd. Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor ei bod yn debygol y byddai Strategaeth Ailwynebu a Thrin Priffyrdd y cyngor yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol i'w hystyried.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Y DYLID nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwysu'r gorwariant a ragwelir yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Aelodau o'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23.
- (2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

833 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 IONAWR 2023 (CAT) –

Cyflwynodd y cyfrifydd yr adroddiad a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Ionawr 2023. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1, oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa fesul cyfarwyddiaeth yn y Rhaglen Gyfalaf, o'r adeg pan gafodd ei chymeradwyo gan y cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 31 Ionawr 2023, ac yn cynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaol sylweddol oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod eisiau ailwneud cynlluniau neu eu haildendro, a fyddai'n arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn nodi bod amseroedd arwain hir wrth gaffael deunyddiau a bod prinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen gymeradwy gyfredol o £88.2 miliwn ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hon yn debygol o gael ei chyflawni a gofynnwyd am lithriant o £8 miliwn. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr prosiect a noddwyr. Byddai llithriant pellach yn cael ei adrodd fel rhan o'r adroddiad alldro cyfalaf.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper mai'r gwariant cyffredinol presennol ar 31 Ionawr 2023 oedd £42.7 miliwn a'r gwariant rhagamcanol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol oedd £79.6 miliwn. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod swm sylweddol o wariant ar gyfer dau fis olaf y flwyddyn. Mewn ymateb, dywedodd y cyfrifydd fod rhan fawr o'r gwariant yn ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai, a gofynnwyd i swyddogion prosiect gadarnhau'r gwariant disgwylidig. Ymhellach i'r ymholiad hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y ffigurau yn yr adroddiad yn gywir ar gyfer ei gyfarwyddiaeth ef a dywedodd fod proses drylwyr wedi'i dilyn o ran meysydd llithriant.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd C. Iannucci, cytunwyd i ddiweddariad ar y gwaith i osod arddangosiadau electronig mewn arosfannau bysiau gael ei ddsbarthu trwy e-bost.

Holodd y Cynghorydd A. Ernest am gynlluniau ar gyfer yr hen farchnad da byw yn y Bont-faen. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod maes parcio bellach wedi'i leoli ar y safle, a byddai'r rhaglen gyfalaf adnewyddu rhai mannau a gwneud gwaith cynnal a chadw.

Mewn perthynas â chynllun yr adroddiad, awgrymwyd mai dim ond gwybodaeth yn ymwneud â chylch gorchwyl penodol y Pwyllgor Craffu y dylid ei chyflwyno yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, a chyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) fod dull newydd wedi'i fabwysiadu i roi dealltwriaeth fwy cyffredinol i bob Pwyllgor Craffu o sefyllfa cyllideb y cyngor. Ystyriwyd hefyd ei bod yn cymryd gormod o

amser ac nad oedd yn gosteffeithiol i gyflwyno adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r pum Pwyllgor Craffu.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) NODI'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r Flwyddyn i'r Dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

**834 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL:
PERFFORMIAD CHWARTER 3 2022/23 A CHYNNYDD YN ERBYN
ARGYMHELLION RHEOLEIDDIOL ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA
(CL) –**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lleuedd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2022 o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag amcanion llesiant y cynllun corfforaethol a chyflwyno'r cynnydd hyd yma o ran mynd i'r afael ag argymhellion presennol a chynigion gwella gan reoleiddwyr allanol.

Monitro Perfformiad ADP Chwarter 3

Roedd yr adroddiad perfformiad yn cyflwyno cynnydd yn Ch3 (1 Ebrill 2022 i 31 Rhagfyr 2022) tuag at gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant y cynllun corfforaethol. Rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i bob un o bedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol yn Ch3 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran bodloni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2022/23.

Rhoddwyd perfformiad gwyrdd i 93% (353 allan o 380) o'r gweithgareddau arfaethedig a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter; rhoddwyd statws oren i 1% (3) o'r

gweithgareddau arfaethedig, a statws coch i 6% (24) o'r gweithgareddau arfaethedig. O'r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant cynllun corfforaethol y cyngor, adroddwyd data ar gyfer 33 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Rhoddwyd statws perfformiad gwyrdd i 58% (19) o fesurau, statws oren i 6% (2) o fesurau, a statws coch i 36% (12) o fesurau. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 95 o fesurau gan fod 22 o'r rhain yn ymwneud â mesurau yn sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer 2022/23, roedd 67 arall yn ymwneud â mesurau a fyddai'n cael eu monitro'n flynyddol, ac ar gyfer 6 o fesurau ni ddarparwyd diweddariad.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio, dyfarnwyd statws perfformiad gwyrdd i 96% (104 allan o 108) a rhoddwyd statws coch i 4% (4). O'r chwe mesur a adroddwyd, cafodd 83% (5) statws perfformiad gwyrdd ac 1% (1) statws oren.

Y chwarter hwn roedd yr eithriadau perfformiad wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan aelodau etholedig yn dilyn gweithdy ym mis Gorffennaf 2022 ar fonitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Er hwylustod, roedd eithriadau perfformiad sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn amlygu statws presennol y camau perfformio coch a nodwyd yn y chwarter blaenorol i ddangos cyfeiriad, sef a oedd camau adfer arfaethedig wedi'u cymryd i symud y camau hyn yn eu blaenau.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r aelodau etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad a nodwyd. Ar ôl eu hystyried, argymhellwyd i'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

Traciwr mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol: Cynnydd yn erbyn argymhellion rheoleiddio allanol a chynigion ar gyfer gwella

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu cynnydd ym mis Ionawr 2023 (Ch3) yn erbyn holl argymhellion rheoleiddio allanol presennol a'r cynigion ar gyfer gwella. Yn unol â threfniadau rheoli perfformiad corfforaethol, rhoddodd gwasanaethau perthnasol y cyngor ystyriaeth i'r canfyddiadau a gynhwyswyd mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol wrth iddynt gael eu cyhoeddi, ac roedd camau gweithredu wedi'u hymgorffori o fewn traciwr mewnwelediad Bwrdd Mewnwelediad Strategol y cyngor drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol. Cafodd y camau hyn eu monitro gan y Bwrdd Mewnwelediad Strategol a'u hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth i waith i fynd i'r afael â nhw fynd rhagddo. Cafodd cynnydd hefyd ei fonitro gan gydweithwyr Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r Cynllun Rheoleiddio Blynyddol.

Yn Ch3, gwnaed cynnydd cadarnhaol o ran ymateb i feysydd gwella rheoleiddio. Yn gyffredinol, roedd 46 o gamau gweithredu parhaus yn y traciwr mewnwelediad ar hyn o bryd. Roedd 35 wedi cael statws perfformiad gwyrdd (Coch Oren Gwyrdd), pedwar wedi cael statws oren a saith wedi cael statws coch. O'r 24 o gamau gweithredu sy'n ymwneud ag argymhellion rheoleiddio lleol, roedd 17 wedi cael statws gwyrdd, roedd pedwar wedi cael statws oren, ac mae'r tri cham gweithredu sy'n weddill wedi cael statws coch.

Roedd y camau gweithredu a gafodd statws coch yn ymwneud â'r adolygiad o waith partneriaeth â'r trydydd sector, a oedd yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

Ar hyn o bryd, roedd 22 o gamau gweithredu yn y traciwr mewnwelediad yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddio cenedlaethol, ac roedd 18 ohonynt wedi cael statws gwyrdd a'r pedwar cam arall statws coch. Roedd y camau gweithredu a gafodd statws perfformiad coch yn ymwneud ag adolygiadau o gyllid trydydd sector a gwasanaethau llywodraeth leol i ardaloedd gwledig (gan ganolbwyntio ar agweddau trosglwyddo asedau cymunedol), a oedd yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Yn ogystal â'r 24 o gamau gweithredu lleol, ystyriwyd bod 17 o gamau gweithredu pellach yn ymwneud â gwaith rheoleiddio lleol bellach wedi'u cwblhau a'u hymgorffori fel arferion busnes fel arfer yn y meysydd gwasanaeth perthnasol. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u cwblhau sy'n berthnasol i'r pwyllgor.

Yn ogystal â'r 22 o gamau gweithredu cenedlaethol, ystyriwyd bod 16 o gamau gweithredu pellach yn ymwneud ag astudiaethau rheoleiddio cenedlaethol bellach wedi'u cwblhau a'u bod wedi'u hymgorffori fel arferion busnes fel arfer yn y meysydd gwasanaeth perthnasol. Roedd y camau gweithredu a gwblhawyd a oedd yn berthnasol i'r pwyllgor yn ymwneud ag adolygiad o effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru (pedwar cam).

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol. Yn dilyn adolygiad, gofynnwyd i'r aelodau argymhell i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet y dylid dileu'r camau gweithredu a gwblhawyd o'r traciwr mewnwelediad fel sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu.

Gofynnodd y Cynghorydd P. Drake a allai'r pwyllgor dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am erydu arfordirol. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o raglen waith y pwyllgor ar gyfer 2023/24.

Awgrymodd y Cynghorydd C. Champion y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys data cymharol bob chwarter. Cytunodd y Cyfarwyddwr Lleoedd i godi hyn gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Amlinellodd y Cadeirydd ei diolch a'i gwerthfawrogiad i holl staff y Gyfarwyddiaeth am eu holl waith caled.

Yr oedd

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 fel y maent yn cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) CYMERADWYO'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor, ac argymell i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet bod y camau gweithredu gorffenedig canlynol gan y Traciwr Insight, fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, yn cael eu dileu:

- Adolygiad Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (4 cam gweithredu).

Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol cenedlaethol a lleol.

835 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/2024 (CL) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau i'r camau blaenoriaeth, fel y'u hadlewyrchwyd yn y cynlluniau gwasanaeth a'r targedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023/2024, a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r gweithgareddau cynlluniedig ar gyfer y gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn y cynlluniau gwasanaeth) a thargedau perfformiad cysylltiedig o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor. Roedd y rhain yn nodi'r meysydd ffocws penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2023/2024 fel y'u haliniwyd â phedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol.

Byddai datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn helpu i fodloni rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gosod dyletswyddau penodol ar y cyngor mewn perthynas ag adolygu a gosod amcanion, parhau i adolygu perfformiad ac adrodd ar berfformiad, gyda ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion y Fro.

Yn unol â dyletswyddau statudol, roedd perthnasedd yr amcanion llesiant yn cael ei adolygu'n barhaus. O ganlyniad, wrth symud ymlaen i 2023/2024, sicrhawyd bod amcanion llesiant y cynllun corfforaethol a'r ymrwymadau cysylltiedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024 (sydd wedi'u cynnwys ym mhapurau cefndir yr adroddiad hwn) yn berthnasol i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer

dinasyddion Bro Morgannwg ac y byddent yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Bu pob Pwyllgor Craffu yn ystyried Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ym mis Rhagfyr 2022 ac roedd eu barn ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid allweddol eraill wedi llywio'r cynllun terfynol, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 16 Chwefror 2023 ac a gyfeiriwyd at y cyngor llawn ar 6 Mawrth 2023 ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

Adlewyrchwyd yr ymrwymïadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 mewn 15 o gynlluniau gwasanaeth a ddarparwyd, er gwybodaeth, yn y papurau cefndir i'r adroddiad. Roedd y cynlluniau hyn yn dangos sut y byddai meysydd gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar amcan llesiant, a'u cyflwyno'n gyffredinol, a sut y byddai adnoddau'n cael eu defnyddio i wneud hynny.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu'r cyfraniadau gan wasanaethau (trwy weithgareddau a gynlluniwyd a mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig) i sicrhau eu bod yn berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor ac y byddent yn cefnogi cyflawni ymrwymïadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2023/24. Roedd y rhain wedi'u nodi yn Atodiad A a B i'r adroddiad.

Yn dilyn adolygiad, gofynnwyd i'r aelodau argymhell i'r Cabinet y gweithgareddau arfaethedig (fel yr amlinellwyd yn y cynlluniau gwasanaeth) a'r targedau perfformiad gwasanaeth cysylltiedig sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor fel y prif ddull o fonitro a mesur perfformiad ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 ac adrodd arno yn chwarterol. Roedd y rhain wedi'u nodi yn Atodiad A a B i'r adroddiad.

Holodd y cadeirydd am gynlluniau adfywio ar gyfer canol trefi a ffyrdd o annog pobl i siopa'n lleol. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lle at ddatblygiad cynlluniau lle ar gyfer pedair prif dref Bro Morgannwg. Y rheini yw'r Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen. Cysyniad oedd cynlluniau lleoedd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, a oedd wedi'i addasu gan y cyngor yn Gynlluniau Creu Lleoedd. Byddai'r cynlluniau yn caniatáu i'r cyngor wneud cais am arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ystyrir yn addas, a hefyd yn caniatáu i'r cyngor gynllunio'n fwy cyfannol o amgylch yr hyn sydd ei angen i helpu canol trefi i dyfu. Er enghraifft, drwy wella'r cysylltedd rhwng Heol Holton a'r glannau ag ardaloedd eraill yn y Barri fel y stryd fawr. Wrth symud ymlaen ar gyfer y flwyddyn nesaf, un o gamau gweithredu cyntaf y cyngor fyddai cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Creu Lle'r Barri i gasglu barn busnesau, cymunedau, grwpiau eraill a'r trydydd sector i sicrhau bod cynlluniau'r cyngor yn gysylltiedig â'u hagendâu a'u hamcanion. Byddai gwaith hefyd yn dechrau ar y tair canol tref arall yn y Fro.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI a chymeradwyo'r gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2023/24, fel y'u ceir yn y Cynlluniau Gwasanaeth ac fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A yr adroddiad).

(2) NODI a chymeradwyo'r mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaethau ar gyfer 2023/2024, sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B yr adroddiad).

Rheswm dros yr argymhellion

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

836 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER A RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU 2022/2023 (CAC) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu a'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2022/23.

Roedd Tracio Argymhellion Heb ei Gwblhau 2022-23 wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad, roedd Tracio Argymhellion Heb ei Gwblhau 2019-20 ynghlwm yn Atodiad B, ac roedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i Diweddarau ar gyfer 2022/23 ynghlwm yn Atodiad C.

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A a B yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.